estyn.gov.uk

# Arfer effeithiol o ran gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd

Mehefin 2015



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **3**

**Argymhellion** **4**

**1 Pa mor dda yw presenoldeb mewn ysgolion cynradd?** **5**

Presenoldeb cyffredinol 5
Rhesymau dros absenoldeb disgyblion 6
Presenoldeb a chyrhaeddiad 7
Presenoldeb ac anfantais 8
Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol 9

**2 Cynllunio i wella presenoldeb** **9**

Dadansoddi data 9
Polisïau a strategaethau 11
Rhannu arfer orau ac arfarnu effaith 12

**3 Darpariaeth a chymorth ar gyfer gwella presenoldeb** **13**

Dulliau yn yr ysgol 13
Ymgysylltu â disgyblion 18
Gweithio gydag ysgolion eraill ac asiantaethau allanol 20

**4 Arfer effeithiol i wella cyfraddau presenoldeb** **24**

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** **27**

**Atodiad 2: Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt** **28**

**Atodiad 3: Absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig** **29**

**Atodiad 4: Y sefyllfa gyfreithiol bresennol mewn perthynas â phresenoldeb** **30**

**Atodiad 5: Cyfraddau presenoldeb awdurdodau lleol a chonsortia** **32**

**Map absenoliaeth yng Nghymru** **33**

**Rhestr gyfeiriadau** **34**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** **35**

## Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn yw'r ail o blith dau adolygiad thematig a luniwyd gan Estyn i ymateb i gais am gyngor am arfer o ran gwella presenoldeb gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ei lythyr cylch gwaith blynyddol. Canolbwyntiodd yr adroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd ym Medi 2014, ar strategaethau a chamau gweithredu mewn ysgolion uwchradd ac awdurdodau lleol i wella presenoldeb. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar arferion mewn ysgolion cynradd sydd wedi arwain at lefelau presenoldeb da neu lefelau sy'n gwella ac mae'n cynnwys astudiaethau achos arfer orau.

Ar gyfer yr arolwg hwn, ymwelodd arolygwyr Estyn ag ysgolion cynradd ledled Cymru lle roedd presenoldeb naill ai'n dda neu wedi gwella'n sylweddol yn y pedair i bum mlynedd ddiwethaf. Roedd yr ysgolion yn amrywio o ran maint o 60 i 520 o ddisgyblion, ac roedd cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgolion hynny yn amrywio o 3% i 60%.

## Cefndir

Yn 2006, lluniodd Estyn adroddiad arolwg o'r enw 'Gwella presenoldeb'. Roedd yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor ar yr ymyriadau a ddefnyddir gan ysgolion ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Dyma oedd ei brif ganfyddiadau:

- Ychydig iawn o ysgolion a ddefnyddiodd y data meincnodi a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i osod targedau digon heriol ar gyfer presenoldeb
- Roedd gan bron pob ysgol bolisi presenoldeb, ond nid oedd lleiafrif o ysgolion yn adolygu'r polisïau hyn yn rheolaidd, ac nid oeddent yn addas at eu diben o ganlyniad
- Cafodd lawer o ysgolion broblemau yn atal disgyblion rhag cymryd gwyliau yn ystod y tymor

Lle roedd arfer yn dda:

- Roedd ysgolion yn rhoi pwyslais mawr ar greu amgylchedd sy'n croesawu disgyblion ac yn eu hannog i fynychu
- Roedd penaethiaid mewn ysgolion cynradd ac aelod o'r uwch dîm rheoli mewn ysgolion uwchradd yn cymryd rôl arweiniol mewn mynd i'r afael ag absenoldeb
- Cafodd cysylltiadau da eu sefydlu a'u cynnal gyda theuluoedd
- Roedd gan ysgolion lywodraethwr cyswllt dynodedig sydd â chyfrifoldeb am bresenoldeb

Mae llawer o ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn debyg i ganfyddiadau'r adroddiad yn 2006.

Yn 2011, cyhoeddwyd 'Strategaethau i ysgolion wella presenoldeb a rheoli diffyg

prydlondeb' gan Lywodraeth Cymru, fel rhan o 'Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan'. Mae'r ddogfen hon yn nodi enghreifftiau o strategaethau effeithiol y gall ysgolion eu defnyddio i helpu i wella presenoldeb. Ychydig iawn o ysgolion yn unig yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn oedd yn ymwybodol o'r adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae ysgolion sy'n cynnal presenoldeb da neu'n gwella presenoldeb yn aml yn defnyddio strategaethau cyffredin. Yn yr ysgolion hyn, y sylw cyson a roddir i bresenoldeb a'r strategaethau amrywiol a ddefnyddir sydd wedi arwain at bresenoldeb da ac nid rhoi un strategaeth benodol ar waith. Mae ysgolion sydd â phresenoldeb cyson dda neu well:

- yn creu amgylchedd sy'n croesawu disgyblion ac yn cynllunio cyfleoedd dysgu sy'n eu hannog i fynychu
- yn meddu ar bolisi presenoldeb clir y mae disgyblion, rhieni a staff yn ei ddeall
- yn codi proffil presenoldeb ymhlith disgyblion a rhieni, fel eu bod yn deall effaith presenoldeb gwael ar waith disgyblion a'u cyfleoedd mewn bywyd
- yn rhoi neges gref i rieni fod gan yr ysgol ddisgwyliad uchel o ran presenoldeb disgyblion, a'i bod yn ymateb yn gyflym ac yn gyson i absenoldeb
- yn deall y rhesymau dros absenoldeb disgyblion unigol ac yn darparu her a chymorth targedig i'r disgyblion hyn a'u teuluoedd
- yn cynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol ac mewn strategaethau i wella presenoldeb
- wedi creu cysylltiadau cryf gyda gwasanaethau cymorth, gan gynnwys grwpiau cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth lles addysg, sy'n gallu cynorthwyo mewn ymgysylltu â theuluoedd sy'n agored i niwed, a'u cefnogi
- yn cynnwys staff sydd â chyfrifoldeb wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer monitro a gwella presenoldeb
- wedi rhoi system gyswllt diwrnod cyntaf a pharhaus ar waith
- yn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael i nodi a gweithredu ar broblemau presenoldeb yn gyflym a chyson
- yn defnyddio gwobrau a chymhellion priodol i annog presenoldeb da
- yn cynnwys presenoldeb wrth gynllunio gwelliant ysgolion ac yn sicrhau bod strategaethau yn cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol
- yn cynnwys uwch staff a chorff llywodraethol sy'n monitro ac yn arfarnu effaith strategaethau presenoldeb

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 roi'r strategaethau a nodwyd yn yr adroddiad hwn ar waith i wneud yn siŵr bod pob disgybl yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:**

A2 hwyluso rhannu arfer orau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

A3 gwneud yn siŵr bod ymgynghorwyr her yn herio a chefnogi arweinwyr ysgol mewn perthynas â chymryd camau ar bresenoldeb disgyblion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**


A4 roi cyhoeddusrwydd i'r gyfran ar 'Strategaethau i ysgolion wella presenoldeb a rheoli diffyg prydlondeb' yn y 'Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan'

# 1 Pa mor dda yw presenoldeb mewn ysgolion cynradd?

## Presenoldeb cyffredinol

2 Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd a gynhelir wedi gwella dros y pum mlynedd ddiwethaf, a gwelwyd gwelliant mawr y llynedd (2013/2014). Y ffigur presenoldeb cyfartalog mewn ysgolion cynradd a gynhelir erbyn hyn yw 94.8%, (Llywodraeth Cymru, 2014) (Ffigur 1). Y gwelliant mewn presenoldeb yn 2013/2014 yw'r cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn a welwyd dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac mae'n ganlyniad ffocws cynyddol gan ysgolion ar y broblem hon.

**Ffigur 1: Presenoldeb cyffredinol gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru, 2009-2010 i 2013-2014**




Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru, 2014.

3 Mae cyfradd presenoldeb o 94.8% yn golygu bod disgyblion, ar gyfartaledd, wedi colli 5.2%[1] o sesiynau hanner diwrnod o ysgolion cynradd, arbennig ac annibynnol a gynhelir yn 2013-2014. Mae hyn yn golygu bod pob disgybl ysgol gynradd wedi colli tuag wyth diwrnod o ysgol yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd.

4 Er bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd yng Nghymru ar eu lefel uchaf erioed erbyn hyn, maent islaw'r lefel a gofnodwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig o hyd. Ar sail y flwyddyn lawn ddiwethaf y mae data a wiriwyd ar gael ar ei chyfer (2012-2013), mae'r gyfradd presenoldeb mewn ysgolion cynradd yng Nghymru y tu ôl i'r gyfradd yn y gwledydd cartref eraill:

- Lloegr 95.3%
- Gogledd Iwerddon 94.9%
- Yr Alban 94.9%
- Cymru 93.7%

Ffynonellau: Prydain Fawr (DfE) 2014, Gogledd Iwerddon (DENI) 2014, Llywodraeth Yr Alban 2013.


[1] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig fel ei gilydd. Gweler Atodiad 3.

## Rhesymau dros absenoldeb disgyblion

5 Disgynnodd canran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion o 6.9% o sesiynau hanner diwrnod yn 2009-2010 i 5.2% yn 2013-2014, (Llywodraeth Cymru, 2014) (Ffigur 2). Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn yr ysgol am ddau ddiwrnod a hanner yn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfartaledd trwy gydol eu hoes ysgol gynradd erbyn hyn.

6 Yn 2012-2013, cododd cyfradd yr absenoldeb cyffredinol o ysgolion cynradd, arbennig ac annibynnol a gynhelir o 0.2 pwynt canran. Roedd hyn yn bennaf oherwydd lefelau cynyddol o salwch. Fodd bynnag, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod absenoldeb cyffredinol wedi gostwng eto mewn ysgolion cynradd, (Llywodraeth Cymru, 2014).

**Ffigur 2: Cyfraddau absenoliaeth gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, 2009-2010 i 2013-2014**




Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru, 2014

7 Salwch yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldeb mewn ysgolion cynradd a gynhelir, sy'n cyfrif am bron i 60% o absenoldebau (Ffigur 3). Bu rhywfaint o gynnydd yng nghyfran yr absenoldebau yn sgil apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol yn 2013-2014 ac mae'n cyfrif am 6.3% o'r holl absenoldebau, (Llywodraeth Cymru, 2014).

8 Yn 2013-2014, roedd disgyblion a oedd yn 'hwyr (yn cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau)' yn cyfrif am 1.1% o'r holl absenoldebau, (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae tystiolaeth arolygu ac arolwg yn dangos bod yr arfer o ran cofnodi'r math hwn o absenoldeb yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion cynradd a bod amrywiad sylweddol o ran yr amser y mae ysgolion cynradd yn ystyried bod eu cofrestr 'wedi cau'. Tan yn ddiweddar, ni chafwyd arweiniad clir na chysondeb o ran pa mor hir y dylai cofrestri aros ar agor ar ddechrau pob sesiwn ysgol, sy'n achosi amrywiad sylweddol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i hyn trwy roi arweiniad clir i'r Gwasanaeth Lles Addysg y dylai cofrestri aros ar agor am 30 munud yn unig ar ôl dechrau'r sesiwn.

**Ffigur 3: Canran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, oherwydd absenoldeb**

| Math o absenoldeb | Rheswm dros yr absenoldeb | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdodedig | Salwch | 51.7 | 56.9 | 57.2 |
| | Apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol | 10.2 | 6.2 | 6.3 |
| | Ymlyniad crefyddol | 0.2 | 0.2 | 0.4 |
| | Cyfnod astudio | 0.1 | - | - |
| | Absenoldeb i deithio | 0.5 | 0.5 | 0.5 |
| | Gwyliau teuluol y cytunwyd iddynt | 19.3 | 17.0 | 11.7 |
| | Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd iddynt | 0.6 | 0.3 | 0.2 |
| | Gwahardd, ond ni wnaed unrhyw ddarpariaeth arall | 0.3 | 0.3 | 0.3 |
| | Awdurdodedig arall (nid yw codau neu ddisgrifiadau eraill yn ei gynnwys) | 4.8 | 5.0 | 4.5 |
| | **Cyfanswm yr absenoldeb awdurdodedig** | **87.7** | **86.4** | **81.1** |
| Anawdurdodedig | Gwyliau teuluol (nas cytunwyd iddynt neu sesiynau y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd iddo) | 1.3 | 3.1 | 8.0 |
| | Hwyr (wedi cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau) | 1.1 | 0.9 | 1.1 |
| | Anawdurdodedig arall (nid yw codau neu ddisgrifiadau eraill yn ei gynnwys) | 7.7 | 7.7 | 9.1 |
| | Heb roi rheswm dros yr absenoldeb eto | 2.2 | 1.9 | 0.8 |
| | **Cyfanswm yr absenoldeb anawdurdodedig** | **12.3** | **13.6** | **18.9** |
| Cyffredinol | **Cyfanswm yr absenoldeb cyffredinol** | **100.0** | **100.0** | **100.0** |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru, 2014

9 Er bod y gyfradd absenoldeb cyffredinol wedi disgyn mewn ysgolion cynradd a gynhelir, cynyddodd cyfradd yr absenoldeb anawdurdodedig. Mae hyn o ganlyniad i ysgolion yn categoreiddio mathau penodol o absenoldeb yn anawdurdodedig y gallent fod wedi ei ddosbarthu yn awdurdodedig yn y gorffennol.


10 Mae llawer o ysgolion (gyda chymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol) yn gweithredu polisi i beidio ag awdurdodi gwyliau teuluol yn ystod y flwyddyn academaidd erbyn hyn. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canran yr absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol wedi'u hawdurdodi gan ysgolion wedi disgyn yn sylweddol. Dros yr un cyfnod, mae absenoldebau anawdurdodedig yn sgil gwyliau teuluol nas cytunwyd gyda'r ysgol wedi codi gan nifer debyg. Cynyddodd cyfran yr absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol nas cytunwyd gan yr ysgol o 1.3% yn 2011-2012 i 8.0% yn 2013-2014, (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae tystiolaeth yr arolwg yn dangos mai'r arfer gynyddol o ysgolion yn peidio ag awdurdodi gwyliau teuluol yn ystod y tymor yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol yn y cynnydd hwn mewn absenoldebau anawdurdodedig mewn ysgolion cynradd.

## Presenoldeb a chyrhaeddiad

11 Ceir cyswllt ystadegol cryf rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad. Yn 2014, llwyddodd dros 92% o ddisgyblion heb unrhyw absenoldeb i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)[2] ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (Ffigur 4). I ddisgyblion y mae eu presenoldeb islaw 90%, ond yn fwy nag 80%, mae'r ffigur hwn yn gostwng yn sylweddol i ryw 77% o ddisgyblion. I'r disgyblion sydd â'r gyfradd presenoldeb isaf, sef y rhai y mae eu presenoldeb yn is na 70% ond yn fwy na 50%, llwyddodd 50% ohonynt yn unig i gyflawni'r DPC, (Llywodraeth Cymru, 2015).

[2] Mae'r dangosydd pwnc craidd (DPC) yn cyfeirio at ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefel 4 ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Ffigur 4: Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC) yng nghyfnod allweddol 2 yn ôl cyfraddau absenoldeb cyffredinol, 2012-2014 (a)**




(a) Ni chaiff data siart ar gyfer disgyblion yr oedd eu cyfraddau absenoldeb dros 50% eu dangos gan fod llai na 50 o ddisgyblion yng ngharfanau'r blynyddoedd.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015

12 Ar sail y nifer statudol, sef 190 o ddiwrnodau ysgol bob blwyddyn, bydd disgybl sydd â chyfradd presenoldeb o 90% yn colli 19 diwrnod o ysgol bob blwyddyn. Rhwng dechrau yn yr ysgol gynradd yn y dosbarth derbyn hyd ddiwedd addysg gynradd ym Mlwyddyn 6, bydd disgybl sydd â chyfradd presenoldeb o 90% yn colli 133 diwrnod llawn o ysgol. Mae hyn gyfwerth â dros hanner blwyddyn o ddysgu.

## Presenoldeb ac anfantais

13 Mae data presenoldeb yn dangos bod perthynas rhwng y gyfradd presenoldeb gyffredinol a chyfrannau'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn gyffredinol, mae cyfraddau presenoldeb is mewn ysgolion lle mae cyfran uwch o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Ffigur 5). Fodd bynnag, dengys y data hefyd fod cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn gallu bod yn wahanol iawn mewn ysgolion lle mae canrannau tebyg o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2015).

14 Yn 2014, mewn ysgolion sydd â'r gyfran isaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (islaw 8%), roedd presenoldeb yn amrywio o 88.9% i 98.8%. Mewn ysgolion sydd â'r gyfran uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (dros 32%), roedd presenoldeb yn amrywio o 87.9% i 97.5%, (Llywodraeth Cymru, 2015). Ar sail nifer statudol o 190 o ddiwrnodau ysgol bob blwyddyn, mewn ysgolion sydd â'r gyfran uchaf o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae disgyblion yn colli tua phum diwrnod ysgol yn fwy bob blwyddyn, ar gyfartaledd, na disgyblion yn y grŵp isaf o ran prydau ysgol am ddim.

**Ffigur 5: Absenoliaeth gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl y gyfran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, 2013-2014 (a)**

| Canran sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd: Absenoldeb cyffredinol | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd: Absenoldeb anawdurdodedig | Nifer yr ysgolion |
|---|---|---|---|
| 8% neu lai | 5.0 | 0.4 | 313 |
| 16% neu lai, ond dros 8% | 5.7 | 0.5 | 345 |
| 24% neu lai, ond dros 16% | 6.4 | 0.8 | 241 |
| 32% neu lai, ond dros 24% | 7.0 | 1.0 | 205 |
| Dros 32% | 7.7 | 1.7 | 275 |
| Yr holl ysgolion a gynhelir | 6.3 | 0.9 | 1,379 |

(a) Mae data prydau ysgol am ddim yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd.

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC), Llywodraeth Cymru, 2014.

### Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol

15 Mae'r cyfraddau presenoldeb yn amrywio gormod rhwng awdurdodau lleol a rhwng ysgolion yn yr un awdurdod lleol (Atodiad 5).

16 Mae'r holl gonsortia ac awdurdodau lleol wedi cymryd camau i leihau cyfraddau absenoldeb cyffredinol mewn ysgolion cynradd yn 2013-2014. Mewn ychydig llai na hanner yr awdurdodau lleol, mae nifer yr absenoldebau anawdurdodedig wedi cynyddu. Mae'r cynnydd hwn yn cyd-fynd â'r cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n cymryd safiad mwy cadarn ar beidio ag awdurdodi gwyliau teuluol yn ystod y tymor.

17 Mae neges gyson yn dod oddi wrth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol erbyn hyn, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt bolisïau sy'n ceisio atal ysgolion rhag awdurdodi gwyliau teuluol yn ystod y tymor, er mai penaethiaid sydd â'r cyfrifoldeb am awdurdodi'r gwyliau hyn yn y pen draw. Mae'r newid hwn yn cyfrif am y cynnydd hwn mewn absenoldeb anawdurdodedig, yn bennaf.

## 2 Cynllunio i wella presenoldeb

### Dadansoddi data

18 Mae ysgolion sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran cynnal neu wella presenoldeb yn cynnal dadansoddiad manwl o'r data sydd ar gael i ysgolion ar absenoldeb disgyblion. Trwy'r dadansoddiad hwn, maent yn nodi patrymau a phroblemau presenoldeb penodol yn ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol ac yn mynd ymlaen i nodi rhesymau disgyblion unigol am absenoldeb.

19 Ar ei orau, mae'r rhai sy'n gyfrifol am ddadansoddi data presenoldeb, yn gwneud hynny'n rheolaidd. Mewn llawer o achosion, maent yn craffu ar ddata bob wythnos a thros gyfnodau hwy yn ogystal. Maent yn dadansoddi presenoldeb ar gyfer grwpiau o ddysgwyr yn ogystal ag unigolion. O ganlyniad, gallant ddarganfod gwahaniaethau mewn presenoldeb ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr, gostyngiadau ym mhresenoldeb disgyblion unigol neu absenoldebau heb esboniad yn gyflym. Yn dilyn hyn, maent yn cymryd camau gweithredu cytûn, fel cysylltu â rhieni neu wasanaethau cymorth, yn ddi-oed.

20 Mae ysgolion effeithiol yn sicrhau bod pob un o'r staff a chorff llywodraethol yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddata presenoldeb yr ysgol. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am ddata presenoldeb yn hysbysu pob un o'r athrawon am gyfraddau presenoldeb eu disgyblion, gan gynnwys unrhyw ostyngiad ym mhresenoldeb disgyblion unigol. O ganlyniad, mae pob un o'r staff yn ymwybodol o'u rôl mewn gwella presenoldeb. Maent yn herio absenoldebau heb esboniad yn sensitif ond yn sicrhau eu bod yn drylwyr a chyson yn y negeseuon y maent yn eu rhoi ar bwysigrwydd presenoldeb.

21 Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio data presenoldeb i lywio cynllunio strategol. Maent yn gosod targedau uchelgeisiol ond realistig ar gyfer presenoldeb ac yn cyflwyno strategaethau yng nghynllun gwella'r ysgol i gynnal a gwella presenoldeb. Mae hyn yn sicrhau bod y corff llywodraethol yn gallu dwyn arweinwyr ysgol i gyfrif ar y mater pwysig hwn.

**Dadansoddi data yn fanwl yn Ysgol Gynradd Parc Acton, Wrecsam**

Mae 480 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae tua 11% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Saesneg yw iaith yr aelwyd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ac mae tua 6% o ddisgyblion yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 12% o ddisgyblion anghenion ychwanegol.

Ym Mharc Acton, mae arweinwyr yr ysgol yn dadansoddi data presenoldeb i lywio cynlluniau gwella ac ymyriadau. Mae swyddog gweinyddol yr ysgol, y cynorthwyydd addysgu arbenigol ac arweinwyr yr ysgol yn dadansoddi data presenoldeb yn ofalus i nodi presenoldeb ac absenoldeb. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys craffu ar bresenoldeb disgyblion unigol a grwpiau amrywiol yn ofalus, gan gynnwys:

- disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol
- disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- grwpiau ethnig lleiafrifol
- bechgyn a merched
- dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn unigol

Mae'r ysgol yn dadansoddi data dros gyfnod hefyd i nodi tueddiadau blynyddol a phob tair blynedd mewn perthynas ag absenoldeb disgyblion ar gyfer gwyliau.

Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio 'matrics o ran pa mor agored i niwed yw disgyblion'. Casgliad o ystod o ddata o nifer o ffynonellau yw'r matrics hwn, ac mae arweinwyr yn ei ddefnyddio i asesu'r cymorth tebygol y gallai fod ei angen ar ddisgyblion a rhieni.

Ar ôl dadansoddi'r data yn drylwyr, mae'r ysgol yn rhoi gweithgareddau ar waith sy'n bodloni anghenion a heriau penodol disgyblion a rhieni.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- clwb brecwast anogaeth, sy' targedu disgyblion penodol a allai fod yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr heb gael brecwast, ac sy'n darparu cyfle gwerthfawr i wirio lles

disgyblion, (sut maent yn teimlo? ac a oes unrhyw beth y gall yr ysgol ei wneud i helpu?)

- prosiect therapiwtig i ysgrifennu storïau ar gyfer grwpiau bach o blant sydd mewn perygl o beidio â mynychu a phlant sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- gweithdai i rieni i'w helpu i ddeall ymddygiad ac agwedd eu plant a'r effaith y gall y rhain ei chael gartref ac ar bresenoldeb yn yr ysgol
- rhaglen cymorth i fyfyrwyr i helpu disgyblion i ddatblygu hunan-barch a chadernid, yn enwedig wrth drosglwyddo i ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6
- medrau cymdeithasol a chyfathrebu ar gyfer disgyblion a fyddai'n elwa ar ddatblygu'r medrau hyn
- sesiynau ar ddatblygu medrau ffonig ar gyfer disgyblion sydd â medrau llythrennedd isel
- cymorth ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim y mae angen mwy o her arnynt yn eu dysgu
- gweithdy pryder i gynorthwyo disgyblion i ymdopi â phroblemau emosiynol

Mae'r ysgol wedi cynnal presenoldeb disgyblion da am y pedair blynedd ddiwethaf, a cheir cyfradd presenoldeb gyffredinol o ryw 95%. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf ar y cyfan, o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae dadansoddi data yn helpu'r ysgol i nodi'r rhai sydd mewn perygl o bresenoldeb gwael yn gynnar ac mae wedi helpu'r ysgol i roi strategaethau ymyrraeth effeithiol ar waith ar gyfer disgyblion a rhieni. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb. Mae canran y disgyblion sy'n absennol o ganlyniad i wyliau yn ystod y tymor wedi gostwng i'w lefel isaf erioed.

22 Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae ymgynghorwyr her yn trafod data presenoldeb gydag arweinwyr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at gynnal presenoldeb fel blaenoriaeth strategol bwysig. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw ymgynghorwyr her yn herio arweinwyr ysgol ynglŷn â'r problemau sydd wrth wraidd presenoldeb gwael, er enghraifft y rhesymau dros absenoldebau parhaus neu bresenoldeb gwael grwpiau o ddisgyblion. Yn ychwanegol, nid yw ymgynghorwyr her yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth am deuluoedd y mae swyddogion lles addysg yn ei chadw i lywio eu trafodaethau.

23 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yr oedd eu presenoldeb wedi gwella, yn dadansoddi data presenoldeb yn rheolaidd ac yn rhannu canlyniadau'r camau y maent yn eu cymryd gyda'u corff llywodraethol. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ysgolion hyn, ychydig ohonynt yn unig sy'n arfarnu effaith y camau gweithredu unigol y maent yn eu cymryd ar bresenoldeb disgyblion.

**Polisïau a strategaethau**

24 Mae gan ysgolion llwyddiannus bolisi presenoldeb sy'n cael ei ddeall yn dda. Yn yr achosion gorau, mae'r rhain yn amlinellu nodau ac amcanion yr ysgol, ynghyd â systemau a gweithdrefnau ar gyfer sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol ac ar gyfer ymchwilio i bresenoldeb gwael.

25 Mae arweinwyr ysgol yn sicrhau eu bod yn datblygu polisïau sy'n ystyried safbwyntiau disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol. Maent yn ymgynghori â'u hawdurdod lleol a'r gwasanaeth lles addysg i sicrhau bod strategaethau'r ysgol yn adlewyrchu polisi'r awdurdod lleol.

> Yn Ysgol Gynradd Parkland yn Abertawe, mae fforwm rhieni sy'n hyrwyddo cyfathrebu da a pharhaus â rhieni. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddo agenda agored sy'n galluogi arweinwyr ysgol a rhieni i drafod materion ysgol. Mae'r grŵp hwn yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr ar gyfer yr ysgol am faterion fel presenoldeb. Cymerodd y fforwm ran mewn craffu ar y polisi presenoldeb newydd, a chytuno arno. Mae hyn wedi helpu i sicrhau cydweithrediad rhieni. Gall y grŵp siarad â rhieni eraill hefyd, gan sicrhau bod yr ysgol yn cyfleu ei neges yn gyson ac eang.

26 Mae lleiafrif o ysgolion yn datblygu eu polisi presenoldeb ar y cyd ag ysgolion cynradd clwstwr eraill a'r ysgolion uwchradd lleol. Mae hyn yn sicrhau gweledigaeth gyffredin ac yn cyfleu neges gref wrth ddisgyblion a rhieni.

27 Pan fydd gan ysgolion bolisi sy'n gwella presenoldeb yn effeithiol, mae arweinwyr yn parhau i fonitro, arfarnu ac addasu eu polisi i sicrhau bod y polisi yn gyfoes ac yn adlewyrchu newidiadau mewn polisi lleol a chenedlaethol, a bod yr ysgol yn parhau i ddefnyddio'r strategaethau mwyaf perthnasol.

**Rhannu arfer orau ac arfarnu effaith**

28 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ymwybodol yn gyffredinol o ysgolion cynradd sydd â strategaethau effeithiol i wella a chynnal presenoldeb da. Fodd bynnag, dim ond mewn rhai achosion y mae ysgolion cynradd sydd â lefelau presenoldeb da iawn yn cael eu defnyddio fel modelau arfer orau neu i gefnogi ysgolion eraill.

29 Yn yr achosion gorau, caiff ysgolion ddata cymharol gan yr awdurdod lleol ac maent yn ymwybodol o sut mae ysgolion eraill yn perfformio. O ganlyniad, gallant osod targedau priodol a chysylltu ag ysgolion eraill i rannu arfer dda.

30 Nid yw awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol bob amser yn rhannu arfer orau ar wella presenoldeb. Er enghraifft, nid yw penaethiaid bob amser yn ymwybodol o strategaethau effeithiol i wella presenoldeb mewn awdurdodau lleol eraill, hyd yn oed pan fydd yr awdurdodau hyn yn yr un consortiwm.

## 3 Darpariaeth a chymorth ar gyfer gwella presenoldeb

### Dulliau yn yr ysgol

31 Mae rhieni neu ofalwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd. Mae gan ysgolion rôl bwysig mewn sefydlu polisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi lefelau presenoldeb uchel. Mae arweinwyr ysgol effeithiol yn deall pwysigrwydd presenoldeb i gyfleoedd disgyblion mewn bywyd ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i roi ystod o strategaethau ar waith i gynnal a gwella presenoldeb disgyblion.

32 Mae'r arweinwyr hyn yn datblygu polisïau ac arferion clir i gefnogi presenoldeb da y maent yn eu rhannu â disgyblion, rhieni a staff. Maent yn darparu ystod o wybodaeth i ddisgyblion a rhieni am effaith presenoldeb gwael ar gyrhaeddiad a chanlyniadau posibl presenoldeb gwael gan ddisgyblion. Maent yn ail-gadarnhau'r negeseuon hyn yn rheolaidd ac yn codi proffil presenoldeb gyda disgyblion a rhieni trwy amrywiaeth o ffyrdd fel cylchlythyrau, y cyfryngau cymdeithasol, gwefan yr ysgol ac mewn digwyddiadau yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion a rhieni yn deall yr effaith y gall presenoldeb gwael ei chael ar ddeilliannau disgyblion.

**Polisi, gwybodaeth ac arweiniad clir i ddisgyblion a rhieni yn Ysgol Gynradd Parkland, Abertawe**

Mae 513 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd Parkland. Mae hyn yn cynnwys cyfleuster addysgu arbenigol ar gyfer naw disgybl sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol. Mae tua 10% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae tua dau o bob tri disgybl yn wyn Prydeinig ac yn dod o gartrefi Saesneg mamiaith. Mae tua thraean o ddisgyblion yn siarad amrywiaeth o 27 iaith wahanol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 15% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan bob un o'r disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol, ac ychydig iawn yn y brif ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth reolaidd a chlir i rieni am yr amser dymunol i ddisgyblion fynychu apwyntiadau arferol a beth i'w wneud mewn achos o salwch. Mae arweinwyr yr ysgol yn anfon cylchlythyrau rheolaidd sy'n ceisio atal apwyntiadau yn ystod amser ysgol ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd mynychu'r ysgol ar gyfer cynnydd parhaus disgyblion.

Mae'r ysgol yn anfon cofnod presenoldeb pob disgybl at eu rhieni mewn llythyr ar ddiwedd y tymor. Mae'r llythyr hwn yn esbonio effaith gynyddol absenoldebau ar fywyd ysgol disgybl a'r effaith y gall absenoldeb ei chael ar gyrhaeddiad. Mae'n darparu rhifau ffôn defnyddiol hefyd, er enghraifft rhif ffôn y gwasanaeth lles addysg. Mae gan yr ysgol system ar gyfer graddio presenoldeb, felly mae rhieni'n cael cyfradd presenoldeb ganrannol ar gyfer eu plentyn, a dywedir wrthynt p'un a yw'r ganran honno yn dderbyniol. Er enghraifft, mae presenoldeb dros 95% yn 'dda' a phresenoldeb 97% yn 'rhagorol'. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â tharged yr ysgol o gyfradd presenoldeb gyffredinol rhwng 95% a 96%.

Yn arolygon rhieni er 2011, mae rhieni wedi dangos boddhad cynyddol â'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n cytuno bod yr ysgol yn eu hysbysu am gynnydd eu plentyn yn dda a bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i fod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae deilliannau disgyblion yn yr ysgol wedi gwella. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau ym mhob pwnc ar bob lefel yn uwch nag yn 2011. Ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl, mae canlyniadau'n golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer pob pwnc o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae ffigurau presenoldeb yn dangos tuedd barhaus o welliant dros y pedair blynedd ddiwethaf. Rhwng 2011 a 2014, fe wnaeth cyfraddau presenoldeb cyffredinol yr ysgol wella'i safle o gymharu ag ysgolion tebyg o'r 50% isaf i'r 50% uwch.

33 Mae ysgolion sy'n gwella presenoldeb neu'n cynnal lefelau uchel o bresenoldeb disgyblion fel arfer yn gosod targedau uchelgeisiol addas. Mae staff yn deall y targedau ac mae'r ysgolion yn eu cyfleu wrth ddisgyblion a rhieni.

34 Mae ysgolion sy'n cynnal neu'n gwella presenoldeb wedi rhoi system gyswllt diwrnod cyntaf a pharhaus gadarn ar waith. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn deall pa ddisgyblion sy'n absennol ar unrhyw ddiwrnod penodol a'r rhesymau dros absenoldebau. Maent yn cysylltu â rhieni'n gyflym pan fydd disgybl yn absennol ac yn cynnal cyfathrebu â'r cartref trwy gydol yr absenoldeb. Maent yn cwestiynu'r rhesymau am absenoldebau heb esboniad yn sensitif ond yn gadarn. Mae hyn yn cyfleu neges gref i rieni fod yr ysgol yn cymryd absenoldeb yn ddifrifol a bydd bob amser yn ymateb iddo yn gyflym ac yn gyson.

35 Mae gan bron bob ysgol yr ymwelwyd â nhw aelod o staff dynodedig sy'n gyfrifol am wella a chynnal lefelau uchel o bresenoldeb. Mae gan yr unigolion hyn rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir sy'n cefnogi nod parhaus yr ysgol i wella presenoldeb. Maent yn monitro presenoldeb pob disgybl yn ofalus ac mae ganddynt ddealltwriaeth eang o'u hanghenion unigol. O ganlyniad, gallant ymyrryd yn gyflym pan fydd presenoldeb disgybl yn dechrau gostwng, gan gynnwys gwneud cyfeiriadau amserol at asiantaethau cymorth.

**Swyddog lles yn Ysgol Gynradd Christchurch, Y Rhyl**

Mae 427 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae tua 60% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 25% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn cyflogi cynorthwyydd addysgu sydd â chymwysterau da i ymgymryd â rôl 'mentor lles a dysgu'.

Mae'r mentor lles a gweinyddwr yr ysgol yn casglu a dadansoddi presenoldeb a data cysylltiedig arall yn rheolaidd. Maent yn rhoi sylw manwl i ddadansoddi data presenoldeb a'i gyswllt â pherfformiad disgyblion unigol. Pan gaiff patrymau tanberfformio sy'n gysylltiedig â phresenoldeb gwael eu nodi, maent yn trefnu cyfleoedd i ddisgyblion unigol gael mentora a chymorth.

Mae'r mentor lles yn casglu'r holl wybodaeth sydd gan yr ysgol am bresenoldeb a lles ac yn cysylltu â rhieni'n gyflym pan fydd presenoldeb disgybl unigol yn dechrau gostwng. Mae'n cysylltu ag athrawon dosbarth a staff allweddol ar draws yr ysgol i rannu gwybodaeth berthnasol yn effeithiol.

Mae hi'n rhagweithiol o ran cysylltu a thrafod ag asiantaethau cymorth eraill pan fydd angen. Fel rhan o'r rôl hon, mae'r mentor lles yn ffonio rhieni pan fydd disgyblion yn absennol ac yn cynnig cymorth pan fydd angen.

Mae datblygu'r rôl hon wedi arwain at ymgysylltu gwell rhwng yr ysgol a rhieni. Mae hefyd wedi arwain at gyswllt gwell gydag asiantaethau cymorth lleol, fel 'Cyswllt Teuluol' yr awdurdod lleol a 'Phrosiect y Bont' Gweithredu dros Blant, a pharodrwydd cynyddol gan rieni i weithio gyda'r asiantaethau hyn. Yn ôl ymateb rhieni, mae'r ffaith fod rhywun ar gael yn yr ysgol y gallant drafod materion presenoldeb gyda nhw ac y gallant gael cyngor oddi wrthynt yn ddefnyddiol iawn.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r rôl hon yn dda wrth gydlynu cymorth gan asiantaethau allanol mewn perthynas â phresenoldeb, gan gynnwys y gweithiwr cymdeithasol addysg a phrosiectau penodol i wella presenoldeb a lles. Er enghraifft, rhaglen llythrennedd emosiynol yw 'Gwreiddiau Empathi', sy'n seiliedig ar ddysgu arbrofol. Mae'n gwella lles disgyblion trwy eu helpu i ddeall eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill.

Mae'r mentor lles a dysgu yn aelod o staff sy'n hawdd mynd ati, sy'n cyfarfod â rhieni i drafod presenoldeb a materion lles eraill. Trwy'r cyfrwng hwn, mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth am gymorth arall sydd ar gael mewn mannau eraill i gynorthwyo disgyblion a rhieni ymhellach.

Yn 2010, roedd cyfradd presenoldeb gyffredinol yr ysgol tua 91%, a oedd yn gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Er 2011, mae presenoldeb wedi gwella ac mae'r ysgol wedi aros yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg.

36 Mae llawer o ysgolion wedi gwella presenoldeb trwy ddatblygu perthnasoedd cryf gyda rhieni. Maent yn cymryd camau addas i sicrhau bod pob un o'r rhieni yn gallu bod yn rhan o bartneriaeth effeithiol, gan gynnwys y rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Maent yn cynnwys rhieni mewn strategaethau i wella presenoldeb ac yn ehangach ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, defnyddiant fforymau rhieni i drafod a ffurfio polisi.

**Meithrin perthnasoedd gyda theuluoedd yn Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, Caerdydd**

Mae 116 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae tua 20% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae dros 60% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn bennaf o'r cymunedau Tsiecaidd, Slofacaidd a Roma Romanaidd. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 20% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Sylweddolodd arweinwyr yr ysgol nad oedd eu dulliau arferol o gyfathrebu â rhieni yn effeithiol o ystyried nifer uchel y disgyblion a'r teuluoedd y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Fe benderfynon nhw gyflogi cynorthwyydd addysgu fel cyfieithydd amlieithog. Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar gynorthwyo teuluoedd disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, gan gynnwys gwella presenoldeb. Mae'r cyfieithydd yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol yn effeithiol gyda'r teuluoedd hyn.

Tra byddant yn sefydlu'r cysylltiadau hyn, gallant esbonio disgwyliadau ar gyfer presenoldeb disgyblion yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu'r ysgol i herio presenoldeb gwael a diffyg prydlondeb mewn modd cadarnhaol.

Mae'r cyfieithydd yn ymgymryd ag ystod eang o gyfrifoldebau, fel hwyluso cyfarfodydd rhwng rhieni a staff yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys cynnal ymweliadau cartref gyda swyddog presenoldeb yr ysgol hefyd, i gefnogi a herio rhieni pan fydd presenoldeb yn wael. Mae'r cyfieithydd yn helpu i drefnu apwyntiadau meddygol, yn cyfieithu llythyrau ac yn cynorthwyo rhieni i lenwi ffurflenni. Yn ystod y diwrnod ysgol, maent yn rhoi cymorth effeithiol i grwpiau o ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a chymorth bugeiliol un i un. Gallant gynorthwyo rhieni a disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt hefyd, trwy esbonio polisïau, arferion a disgwyliadau'r ysgol. Mae'r rôl hon yn cyfrannu'n dda at wella presenoldeb ymhlith y grŵp hwn o ddysgwyr sy'n agored i niwed.

Mewn cyfarfodydd ar gyfer rhieni newydd, mae'r ysgol yn esbonio'i pholisi a'i harferion presenoldeb, gan gynnwys y posibilrwydd o gael dirwyon ac erlyniadau.

Mae'r ysgol wedi creu perthnasoedd ymddiriedus a chryf gyda bron pob un o'r rhieni. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol iawn wrth wella presenoldeb. Mae arolygon teuluoedd yn dangos bod bron pob un ohonynt yn deall gweithdrefnau'r ysgol ac yn eu gweld yn deg. Yn 2011, roedd cyfradd presenoldeb gyffredinol yr ysgol yn golygu ei bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ers cyflwyno'r strategaethau uchod, mae gwelliant wedi digwydd yn yr ysgol flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae ei chyfradd presenoldeb gyffredinol dros 95% erbyn hyn, sy'n ei gosod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

37 Mae ysgolion sy'n annog rhieni i ystyried apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys yn ofalus ac yn mynd ati i atal apwyntiadau arferol yn ystod oriau ysgol, wedi lleihau absenoldebau. Mae angen i ysgolion sy'n darparu arweiniad ynghylch pryd ac am ba mor hir y mae angen i ddisgyblion aros adref o'r ysgol yn sgil salwch neu gyflyrau eraill wedi lleihau absenoldebau yn y maes hwn hefyd.

**Ymgysylltu â disgyblion, rhieni a'r gymuned leol yn Ysgol Gynradd Santes Helen, Abertawe**

Mae 207 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 23% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ryw 44% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd tua dwywaith yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw tua 90% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, Asiaidd yn bennaf. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ffigur tebyg o ddisgyblion, a Saesneg yn iaith newydd i ryw 10% o ddisgyblion.

**Cefndir**

Yn 2010, roedd y gyfradd presenoldeb gyffredinol islaw 90% ac yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Wrth ddechrau yn yr ysgol, nododd y pennaeth mai'r rhesymau sylfaenol am y duedd o ran presenoldeb isel oedd agwedd hamddenol lleiafrif o rieni a disgyblion at bresenoldeb.

Yn ychwanegol, roedd salwch neu apwyntiadau meddygol yn cyfrif am ganran uchel o absenoldebau.

**Strategaeth**

Datblygwyd strategaethau gan arweinwyr yr ysgol i fynd i'r afael â'r problemau presenoldeb trwy:

- fynd i'r afael â'r agwedd hamddenol at bresenoldeb gan leiafrif o rieni
- cyfleu disgwyliadau'r ysgol o bresenoldeb wrth bob un o'r disgyblion a'r rhieni
- ymgysylltu â disgyblion, rhieni a'r gymuned leol, a chyfleu negeseuon yn fwy effeithiol, fel pwysigrwydd presenoldeb yn yr ysgol

**Camau gweithredu**

Cynhaliodd yr ysgol gyfarfodydd agored ar gyfer rhieni i drafod problemau absenoldeb a phwysleisio pwysigrwydd mynychu'r ysgol. Yn y cyfarfodydd hyn ac o ymchwilio ymhellach, sy'n cynnwys y gwasanaeth lles addysg, staff a rhieni, canfuwyd bod llawer o'r absenoldebau hyn wedi digwydd o ganlyniad i apwyntiadau byr, fel apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol, lle roedd disgyblion yn colli diwrnod cyfan o'r ysgol. Yn ychwanegol, roedd lleiafrif ohonynt yn digwydd am fod rhieni'n caniatáu i ddisgyblion aros gartref, heb eu herio, pan oedd disgyblion yn gofyn am gael peidio â mynd i'r ysgol.

O ganlyniad:

- rhoddodd y pennaeth arweiniad clir a chyson i rieni y dylid cymryd apwyntiadau y tu allan i oriau ysgol ble bynnag y bo modd
- gwnaeth y pennaeth hi'n glir, os oedd angen amser o'r ysgol, yna dylid trefnu'r apwyntiad yn ddiweddarach yn y diwrnod ysgol a/neu fod disgyblion yn mynd yn ôl i'r ysgol yn dilyn apwyntiadau, lle bo modd
- roedd y pennaeth yn disgwyl i rieni ddarparu bonion apwyntiad (ond nid nodiadau meddygol) gan feddygon teulu a gwasanaethau iechyd os oeddent yn argymell amser o'r ysgol ar gyfer apwyntiadau

- fe wnaeth y pennaeth ymgysylltu â'r gymuned leol o ran cefnogi presenoldeb ysgol, er enghraifft trwy gysylltu â deintyddion ac optegwyr lleol i ofyn bod disgyblion yn cael apwyntiadau arferol y tu allan i'r diwrnod ysgol
- parhaodd y pennaeth i gynnal cyfarfodydd agored ar gyfer rhieni bob tymor, lle caiff yr adroddiad tymhorol i'r corff llywodraethol ei gyflwyno i rieni, a rhoddodd ffocws penodol yn y cyfarfodydd hyn ar bwysigrwydd presenoldeb ac amlygodd gynnydd yr ysgol tuag at fodloni ei thargedau presenoldeb

**Effaith**

Mae ffigurau presenoldeb wedi gwella'n sylweddol ers i'r ysgol ganolbwyntio ar bresenoldeb, ac mae'r gyfradd absenoliaeth wedi mwy na haneru. Mae'r ysgol wedi symud o'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion y mae cyfran debyg o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, i'r 25% uchaf yn 2013 a 2014.

38 Mae llawer o ysgolion sydd wedi gwella presenoldeb disgyblion yn defnyddio grwpiau cymorth, fel grwpiau anogaeth a chlybiau brecwast, i annog disgyblion i fynd i'r ysgol yn amlach. Mae'r grwpiau hyn yn darparu gofal a chymorth targedig ac unigol ar gyfer y disgyblion hyn sy'n agored i niwed.

Yn Ysgol Gynradd Santes Monica yng Nghaerdydd, mae'r pennaeth yn trefnu clybiau ar ôl yr ysgol bob tymor, gan dargedu teuluoedd sy'n newydd i'r ysgol, disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r pennaeth yn strwythuro gweithgareddau i ddatblygu hyder, lles a chyfeillgarwch disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys amser cylch i rannu profiadau, heriau grŵp, gemau tîm a gweithgareddau adeiladu tîm, fel canu a dawnsio. Mae hyn wedi bod yn effeithiol o ran datblygu cyfeillgarwch a hyder ymhlith disgyblion, gan feithrin perthnasoedd gyda disgyblion a rhieni fel ei gilydd. Mae'r camau hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant yr ysgol o ran gwella cyfraddau presenoldeb.

**Ymgysylltu â disgyblion**

39 Mae ysgolion wedi gwella presenoldeb disgyblion pan mae staff wedi esbonio i ddisgyblion pa mor bwysig yw mynychu'r ysgol ac wedi esbonio pryd mae'n addas iddynt aros adref oherwydd salwch.

Yn Ysgol Gynradd Parkland yn Abertawe, mae'r ysgol yn ymgymryd ag ystod eang o strategaethau i sicrhau ei bod yn rhoi gwybodaeth glir i ddisgyblion am bwysigrwydd mynychu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sesiynau dosbarth sy'n cysylltu presenoldeb â nodau bywyd a gyda dysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang ac addysg o amgylch y byd
- gwerthoedd dosbarth sy'n cysylltu â hawliau plant a'u hawl i gael addysg
- gwasanaethau ysgol gyfan a sesiynau dosbarth sy'n amlygu pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a'r angen i fod yn hunangymhellol a hunanreoleiddiol
- mae pobl sy'n ymweld â'r ysgol yn siarad am bwysigrwydd mynychu'r ysgol, er enghraifft athro o America a gafodd ei fagu yn Haiti heb unrhyw gyfleoedd i gael

addysg, yn siarad â disgyblion am bwysigrwydd mynd i'r ysgol

O ganlyniad, mae disgyblion yn yr ysgol yn deall gwerth eu haddysg ac eisiau mynd i'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o effaith mynychu'r ysgol ar eu cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Gall disgyblion hŷn roi esboniad clir o'r gwahaniaeth rhwng salwch y mae angen aros adref o'r ysgol ar eu cyfer, ac i'r gwrthwyneb. Er enghraifft, mae'r disgyblion ar y pwyllgor ysgol iach yn honni nad yw'n briodol aros adref ar gyfer annwyd neu beswch bach.

Yn holiadur blynyddol yr ysgol i ddisgyblion, mae'r ysgol wedi ychwanegu cwestiwn sy'n gofyn p'un a yw disgyblion yn deall ei bod yn bwysig peidio â cholli'r ysgol. Yn yr arolwg diweddaraf, cadarnhaodd 100% o ddisgyblion eu bod yn deall.

40 Mewn llawer o ysgolion lle mae presenoldeb wedi gwella, mae ysgolion yn rhannu ffigurau presenoldeb ysgol gyfan, dosbarth ac unigol gyda disgyblion yn rheolaidd. Mae ysgolion yn rhoi gwybod i ddisgyblion am ffigur targed yr ysgol ar gyfer presenoldeb hefyd. Trwy wneud hyn, mae disgyblion yn ymwybodol o'u presenoldeb nhw eu hunain a phresenoldeb disgyblion eraill a sut mae'n cymharu â tharged yr ysgol.

41 Mae llawer o ysgolion yn gweithio gyda disgyblion yn rheolaidd mewn sesiynau dosbarth a gwasanaethau ysgol gyfan ar werthoedd sy'n cysylltu â hawl plant i gael addysg. Ffocws y sesiynau hyn yn aml yw'r angen i ddisgyblion fod yn hunangymhellol a hunanreoleiddiol.

42 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r cyngor ysgol neu grwpiau eraill o ddisgyblion yn cyfrannu syniadau at bolisi ac arferion presenoldeb yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn briodol ac yn cynyddu'r proffil presenoldeb gyda phob disgybl.

43 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn cydnabod bod cymhellion am bresenoldeb da yn ffordd effeithiol o gymell disgyblion a sicrhau bod presenoldeb da yn parhau i fod yn fater sy'n cael llawer o sylw. Mae ysgolion sy'n defnyddio cymhellion yn dda yn tueddu i gymysgu systemau gwobrau mwy ffurfiol a strwythuredig, fel tystysgrifau am bresenoldeb da bob tymor neu flwyddyn, gyda systemau sy'n amlwg yn fwy digymell, fel gwobrau bach i bob disgybl sy'n mynychu ar ddiwrnod penodol.

Mae Ysgol Gynradd Santes Monica yng Nghaerdydd yn defnyddio nifer o raglenni gwobrwyo arloesol ac effeithiol i amlygu presenoldeb ac ymgysylltu â disgyblion.

- Mae'r fenter '5 wythnos lawn' yn gwobrwyo disgyblion sy'n mynychu'r ysgol am bum wythnos heb unrhyw absenoldeb yn ystod un tymor. Mae hyn yn effeithiol oherwydd, hyd yn oed os bydd disgybl yn colli diwrnod, yna gall gael gwobr o hyd gan fod y disgybl yn dechrau ei gyfnod o bum wythnos eto.
- Mae'r ysgol yn cynnal rafflau ar ddiwrnodau ar hap pan fydd pob plentyn sy'n bresennol yn cael tocyn raffl, sy'n rhoi cyfle iddo ennill offer ysgrifennu.
- Mae gwobr 'tystysgrif werdd' (yn unol â'r system goleuadau traffig) ar gyfer disgyblion y mae eu cyfradd presenoldeb dros 95% yn annog y disgyblion hynny

sydd wedi bod yn absennol am ychydig o ddiwrnodau yn unig.

Mae canlyniadau o'r ymgyrch '5 wythnos gyfan' yn dangos nifer gynyddol o ddisgyblion sydd â phresenoldeb llawn am y pum wythnos:

- 38% o ddisgyblion â phresenoldeb llawn yn y pum wythnos gyntaf yn nhymor yr hydref
- 62% o ddisgyblion â phresenoldeb llawn yn y pum wythnos yn nhymor y gwanwyn
- 75% o ddisgyblion â phresenoldeb llawn yn y pum wythnos yn yr haf

44 Mae llawer o ysgolion yn cydnabod ei bod yn bwysig annog presenoldeb da ar gyfer pob disgybl, yn enwedig y rhai na fyddent efallai'n gallu cael tystysgrif am ganran presenoldeb uchel dros gyfnod hir. Yn yr achosion gorau, mae'r ysgolion hyn yn datblygu systemau cymhellol sy'n gwobrwyo presenoldeb gwell neu bresenoldeb llawn dros gyfnod treigl, fel pum wythnos ar y tro. Mae hyn yn galluogi pob disgybl i barhau i anelu at bresenoldeb uchel, oherwydd ar ôl unrhyw gyfnod o absenoldeb, gellir gosod eu targed eto.

**Gweithio gydag ysgolion eraill ac asiantaethau allanol**

45 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn wedi datblygu cysylltiadau gydag asiantaethau eraill, fel yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac ystod o asiantaethau cymorth cymunedol. Maent yn manteisio ar y gwasanaethau hyn yn brydlon i gefnogi disgyblion a'u rhieni.

46 Mae llawer o ysgolion yn gweithio'n dda gyda'u hysgol uwchradd leol a chlwstwr o ysgolion cynradd i wella presenoldeb, gyda chymorth eu hawdurdod lleol a'u consortiwm rhanbarthol lleol. Trwy gyswllt agos, maent yn cytuno ar bolisïau cyson ac yn gosod gweithdrefnau i gefnogi presenoldeb. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys safoni eu hymdriniaeth â cheisiadau am amser rhydd ar gyfer gwyliau. Mae'r arfer unedig hon yn cyfleu neges gyson wrth rieni am bwysigrwydd presenoldeb ym mhob ysgol.

47 Mae ysgolion effeithiol yn cysylltu'n dda â mentrau, fel y 'Tîm o amgylch y Teulu' neu'r 'Tîm Ymateb i Absenoldeb Dyddiol' yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Enghreifftiau o asiantaethau sy'n cefnogi teuluoedd trwy ddarparu ystod o wasanaethau cymorth yw'r rhain. O ganlyniad, mae teuluoedd sydd angen cymorth ar gyfer ystod o faterion a allai gael effaith negyddol ar fynychu'r ysgol yn gallu cael cymorth.

**Partneriaethau strategol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn, Porth**

Mae dalgylch yr ysgol yn fawr ac yn cynnwys pentrefi Porth, Ynyshir, Aberllechau, Glynfach, Cymer, Trebannog a Threhafod. Mae 310 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae tua 11% o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 15% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol wedi rhoi ystod eang o strategaethau ar waith i wella presenoldeb, fel y cydnabyddir yn yr adolygiad thematig hwn. Fodd bynnag, dylid tynnu sylw'n benodol at ddatblygu cysylltiadau effeithiol gyda phartneriaid strategol sy'n darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion a theuluoedd unigol pan fydd angen.

**Camau gweithredu**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod o bartneriaethau strategol i helpu i wella presenoldeb. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd lleol eraill, yr ysgol uwchradd sy'n cael ei bwydo ganddi, asiantaethau'r awdurdod lleol, a gwasanaethau allanol fel busnes lleol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'i chlwstwr lleol o ysgolion cynradd, sy'n cael ei arwain a'i gefnogi gan yr ysgol uwchradd leol. Trwy gyswllt agos, maent wedi cytuno ar bolisi cyson ac wedi gosod gweithdrefnau i gefnogi presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys dull safonedig o gofnodi absenoldebau oherwydd gwyliau.

Yn ychwanegol i wobrau tymhorol yr ysgol am bresenoldeb, mae'r ysgol a'i chlwstwr o ysgolion cynradd lleol yn cynnal seremoni diwedd blwyddyn yn yr ysgol uwchradd leol ar gyfer disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2. Mae pob un o'r disgyblion hŷn y mae eu cyfradd presenoldeb dros 98% yn mynychu ac mae amrywiaeth o wobrau yn helpu i gymell pob disgybl i fynychu'n dda yn ystod y flwyddyn. Mae'r bartneriaeth strategol hon yn datblygu cynefindra disgyblion â'r ysgol uwchradd leol hefyd ac felly'n cefnogi pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o fenter 'mynychwr arbennig' yr awdurdod lleol. Arch arwr dychmygol yw'r mynychwr arbennig a dyma yw masgot yr awdurdod lleol. Mae'n mynychu gwasanaethau yn y rhan fwyaf o dymhorau, yn annog disgyblion i fynd i'r ysgol mor rheolaidd ag y bo modd ac yn rhoi gwobrau i ddisgyblion am bresenoldeb da. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r awdurdod lleol yn caffael gwobrau ychwanegol gan fusnesau lleol hefyd, y mae disgyblion yn eu cael am bresenoldeb da.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau agos gyda Thîm Ymateb i Absenoldeb Dyddiol (DART) yr awdurdod lleol. Eu rôl yw helpu i sicrhau bod disgyblion dim ond yn cael amser o'r ysgol pan fydd angen.

Gyda chytundeb y pennaeth, mae tîm DART yn ymweld â chartrefi disgyblion os ydynt wedi cael eu marcio'n absennol heb unrhyw reswm gan y rhiant. Eu nod yw cyfarfod â'r rhiant i ganfod beth yw'r rheswm dros yr absenoldeb ac esbonio pwysigrwydd sicrhau bod eu plentyn yn mynd i'r ysgol bob dydd ac yn brydlon.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol gyda'i gwasanaeth lles addysg. Mae'r ysgol yn cysylltu'n fuddiol â'i swyddog lles addysg, sy'n helpu i ddadansoddi data presenoldeb, yn monitro cofrestri ar gyfer patrymau o absenoldeb ac yn cefnogi a herio teuluoedd yn effeithiol pan fydd cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gostwng.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â'r fenter leol 'Tîm o amgylch y Teulu'. Mae hyn yn cefnogi teuluoedd trwy gydlynu ystod o wasanaethau cymorth, sydd efallai'n gweithio ar wahân fel arfer. Mae hyn hefyd yn ffordd effeithiol o gyfeirio teuluoedd tuag at gymorth nad ydynt efallai'n gwybod ei fod ar gael. O ganlyniad, mae teuluoedd sydd angen cymorth ar gyfer ystod o faterion a allai gael effaith negyddol ar bresenoldeb yn yr ysgol yn gallu cael cymorth yn effeithlon.

Mae arweinwyr yr ysgol yn cysylltu â gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol i helpu i wella presenoldeb mewn ffordd fuddiol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n agos â gwasanaethau cludiant yr awdurdod lleol i oresgyn rhwystrau a sicrhau bod disgyblion o deuluoedd sy'n byw cryn bellter o'r ysgol yn gallu mynychu'n rheolaidd.

**Effaith**

At ei gilydd, mae presenoldeb wedi gwella'n gyson dros y pum mlynedd ddiwethaf, gan wella o'r 25% isaf i'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ychwanegol, mae cyfradd absenoldebau disgyblion oherwydd gwyliau yn ystod y tymor wedi gostwng. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r bwlch rhwng presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â phresenoldeb disgyblion eraill, wedi lleihau'n sylweddol.

48 Yn awdurdod lleol Caerdydd, gall ysgolion cynradd sy'n bwydo gael cymorth gan swyddogion cymorth ar gyfer presenoldeb a lles, sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd. Mae'r swyddogion cymorth yn helpu i ddadansoddi data, yn cysylltu â rhieni pan fydd disgyblion yn absennol, ac yn cynnal galwadau tai ar gyfer rhieni sy'n anodd eu cyrraedd. Mae'r trefniant hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb yn yr ysgolion hyn.

**Y swyddog cymorth ar gyfer presenoldeb a swyddog ymgysylltu â theuluoedd Ysgol Gynradd Tredegarville, Caerdydd**

Mae 233 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae tua 39% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 28% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod Saesneg yn iaith ychwanegol i 36% o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys mwyafrif o ddisgyblion yn y meithrin, sydd mewn cyfnod caffael cynnar o ran Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn siarad Arabeg fel eu mamiaith.

Rhoddwyd arferion ar waith gan y pennaeth blaenorol i wella presenoldeb. Ar yr adeg honno, roedd agwedd rhai disgyblion at bresenoldeb yn wael ac nid oedd rhai teuluoedd yn ystyried bod cymryd amser o'r ysgol yn broblem. Er enghraifft, gallai'r plant o deulu cyfan fod yn absennol os oedd un plentyn yn sâl. Roedd cael gwyliau yn ystod amser ysgol yn rhywbeth cyffredin.

Dechreuodd pennaeth newydd ar ei swydd yn 2014 ac mae'n parhau â strategaethau effeithiol i wella presenoldeb.

Mae gan y clwstwr o ysgolion ei swyddog cymorth ei hun ar gyfer presenoldeb, sy'n gweithio yn yr ysgol uwchradd leol, sy'n mynychu'r ysgol gynradd am ryw hanner

diwrnod bob wythnos i helpu i fonitro presenoldeb a chynorthwyo'r ysgol.

**Camau gweithredu**

Mae'r swyddog cymorth ar gyfer presenoldeb yn dadansoddi data presenoldeb bob wythnos ac yn cysylltu â rhieni'n gyflym os bydd anghysondebau neu absenoldebau heb eu hesbonio. Os bydd presenoldeb disgybl yn gostwng, caiff eu presenoldeb ei ddadansoddi'n ofalus a gallai'r swyddog presenoldeb ymweld â'r cartref neu drefnu cyfarfod gyda rhieni yn yr ysgol.

O ganlyniad, gall yr ysgol gynnig mentrau cymorth addas i deuluoedd a helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n achosi presenoldeb gwael. Mae monitro gofalus, camau gweithredu prydlon ac ystod dda o fentrau cymorth yn golygu bod presenoldeb yn yr ysgol yn dda, ac fe gaiff ychydig iawn o achosion eu cyfeirio at y gwasanaeth lles addysg.

Mae pob athro dosbarth yn cyfarfod â'r pennaeth a'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd bob hanner tymor i drafod cynnydd pob disgybl. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi presenoldeb pob disgybl. Mae'r ysgol yn sicrhau bod y swyddog cymorth ar gyfer presenoldeb yn ymwybodol o bryderon a nodwyd mewn cyfarfodydd, a allai arwain at gymorth ar gyfer y disgybl.

Mae arweinwyr yr ysgol wedi creu map presenoldeb effeithiol o'r ddarpariaeth, sy' debyg i'r hyn a ddefnyddir gan lawer o ysgolion i fonitro darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn categoreiddio disgyblion sydd â phresenoldeb isel ar un o dair lefel ymyrraeth, sef: monitro gan yr ysgol, monitro gan swyddog presenoldeb yr ysgol, neu gyfeirio at y gwasanaethau lles addysg. Mae'r ysgol yn olrhain strategaethau triniaeth ac ymyrraeth sy'n cefnogi'r disgyblion hyn yn ofalus.

Yn ei ymdrech i ymgysylltu â theuluoedd yn fwy ac annog presenoldeb, mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn arwain ystod o weithgareddau, fel:

- 'Llofnod dysgu teuluol'. Menter yw hon lle mae rhieni a disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio set o ddatganiadau y maent yn eu lliwio yn goch, ambr neu wyrdd. Mae hyn yn helpu i nodi cryfderau ac anghenion yn y teulu. Mae'r ysgol yn defnyddio hon fel sesiwn gychwynnol gyda theuluoedd i ddangos ble gallai fod angen rhagor o gymorth.
- 'Cryfhau teuluoedd', ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 sydd mewn perygl o beidio â mynychu, a'u teuluoedd. Cynhelir y sesiwn hon bob wythnos. Mae'r plant yn cyfarfod mewn grŵp gydag oedolyn tra bydd eu rhieni'n cyfarfod mewn grŵp arall. Wedyn, daw'r ddau grŵp at ei gilydd ar ddiwedd y sesiwn i gael pryd o fwyd. Trwy drafodaethau, gemau a gweithgareddau, mae teuluoedd yn datrys problemau gyda'i gilydd, yn dysgu am reolau a chanlyniadau, ac yn cefnogi cyfathrebu teuluol

Mae'r ysgol yn targedu rhieni sy'n anodd eu cyrraedd, gan gynnwys y rhai y mae cyfraddau presenoldeb eu plant yn isel. Er enghraifft, mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn cynnal gweithdy darllen ac ysgrifennu ddwywaith yr wythnos. Mae

rhieni'n gweithio gyda'u plant ar sillafu, llawysgrifen a darllen.  Mae hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol ac yn gwella safonau ar gyfer disgyblion.

**Effaith**

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf, a'r ysgol wedi gwella o fod yn y 50% is i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

49 Mewn ysgolion lle mae presenoldeb yn dda neu'n gwella, mae arweinwyr yn cynnwys y gwasanaeth lles addysg mewn modd amserol ac yn gofyn am eu cyngor cyn gynted ag y byddant yn nodi presenoldeb gwael neu ostyngiad mewn presenoldeb. Yn yr ysgolion hyn, mae'r gwasanaeth lles addysg yn rhoi cymorth defnyddiol i ysgolion, disgyblion a rhieni i sicrhau presenoldeb rheolaidd ac yn mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud ag absenoliaeth.  Maent yn helpu ysgolion a rhieni i weithio gyda'i gilydd i wella presenoldeb disgyblion.  Mae'r gwasanaeth lles addysg yn cysylltu ag ystod o asiantaethau ac yn darparu cyswllt pwysig rhwng y cartref a'r ysgol.  Pan fydd y trefniadau hyn yn fwyaf llwyddiannus, mae swyddogion lles addysg yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd ac yn cyfarfod ag aelodau o staff sy'n gyfrifol am bresenoldeb disgyblion.  Trwy'r cyfarfodydd hyn a dadansoddi data presenoldeb yr ysgol, maent yn datblygu gwybodaeth fanwl am yr ysgol a'i disgyblion.  O ganlyniad, gallant roi gwybodaeth werthfawr i staff yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol.

## 4 Arfer effeithiol i wella cyfraddau presenoldeb

50 Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adolygiad thematig hwn, y sylw cyson a roddir i bresenoldeb a'r strategaethau amrywiol a ddefnyddir sydd wedi arwain at gyfraddau presenoldeb da ac nid y ffaith fod unrhyw strategaeth benodol wedi cael ei rhoi ar waith.  Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson yng Nghaerdydd yn enghraifft o ysgol sydd ag ystod o strategaethau effeithiol i wella cyfraddau presenoldeb.

**Ymglymiad disgyblion yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Caerdydd**

Mae 465 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 80 o ddisgyblion sy'n mynychu'r meithrin yn rhan-amser.  Mae tua 51% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.  Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw hanner o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd hefyd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%.  Mae'r ysgol yn nodi bod Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw 17% o'i disgyblion.

**Cefndir**

Yn dilyn yr arolygiad yn 2008, pan oedd y gyfradd presenoldeb islaw'r rhan fwyaf o ysgolion, yn lleol ac yn genedlaethol, nodwyd ystod o faterion sy'n cyfrannu at bresenoldeb gwael gan arweinwyr yr ysgol, sef:

- roedd agwedd disgyblion at yr ysgol yn wael
- roedd y gyfradd absenoldeb trwy salwch yn uchel ac nid oedd llawer o ddisgyblion yn mynd i'r ysgol pan oeddent yn dioddef o fân anhwylderau

- roedd gan ormod o rieni ddyheadau isel ar gyfer eu plant

Nododd arweinwyr yr ysgol nad oedd absenoldebau ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor yn arwyddocaol, ond bod absenoldeb oherwydd salwch yn cyfrannu'n fawr at gyfraddau presenoldeb gwael ar y cyfan.

**Strategaeth**

Datblygodd yr ysgol ystod eang o strategaethau i wella presenoldeb, a oedd yn cynnwys:

- cynnwys rhieni'n llawnach ym mywyd yr ysgol
- gwella mecanwaith cymorth ar gyfer rhieni
- gwella'r ffordd y mae'r ysgol yn ymateb i lais y disgybl a rôl disgyblion mewn gwella presenoldeb
- datblygu strwythur ysgol gyfan clir ar gyfer rheoli presenoldeb
- gwella gwybodaeth ar gyfer rhieni am bresenoldeb, gan gynnwys polisi clir sy'n hawdd ei ddeall

Mae blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i bresenoldeb yng nghynllun gwella'r ysgol am y rhan fwyaf o'r pum mlynedd ddiwethaf ac yn aros yn y cynllun, er bod cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol wedi datblygu 'sgwad ddysgu' sy'n cynnwys disgyblion Blwyddyn 5 sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr disgyblion i gynorthwyo arweinwyr yr ysgol â gwella'r ysgol. Mae dau o'r sgwad yn cefnogi'r ymdrech i wella presenoldeb. Bob tymor, mae'r disgyblion hyn yn gweithio gyda thua 20 o ddisgyblion y nododd yr ysgol fod angen gwella eu presenoldeb.

**Camau gweithredu**

Bob bore, mae'r sgwad ddysgu yn ymweld â'r 20 disgybl yn ystod cofrestru ac yn rhoi sticer iddynt os ydynt yn bresennol. Eu nod yw annog y disgyblion hyn i gael presenoldeb llawn am yr wythnos. Os byddant yn llwyddiant, gallant fynychu clwb amser cinio ar ddydd Gwener, sy'n cael ei drefnu'n benodol ar eu cyfer nhw.

Caiff y clwb ei drefnu a'i gynnal gan uwch staff a'r sgwad ddysgu. Dwywaith bob hanner tymor, mae'r sgwad ddysgu a disgyblion targedig yn penderfynu pa weithgareddau yr hoffent eu gwneud yn eu clwb, er enghraifft celf a chrefft. Gallai disgyblion ddewis gweithredu fel arweinwyr chwarae ar gyfer disgyblion yn y dosbarth Derbyn yn ystod amser clwb hefyd.

Mae'r camau gweithredu a gymerwyd hefyd yn cynnwys:

- cael ffocws wythnosol mewn briffiau bore ar bresenoldeb, sy'n galluogi athrawon i drafod disgyblion unigol a nodi unrhyw gymorth neu her y gallai fod ei angen arnynt
- anfon taflenni presenoldeb allan bob hanner tymor at bob un o'r rhieni yn eu hatgoffa am dargedau presenoldeb yr ysgol a phwysigrwydd mynychu'r ysgol

- gwneud gwybodaeth am bresenoldeb yn hawdd i rieni ei deall trwy roi cyfradd presenoldeb unigol eu plentyn i'r rhieni, a thrwy ddefnyddio system goleuadau traffig hefyd i ddangos i rieni p'un a yw'r lefel presenoldeb yn ddigon da ai peidio
- monitro trwy'r dirprwy bennaeth, fel arweinydd cynhwysiant yr ysgol, pan fydd cyfradd presenoldeb disgyblion yn disgyn islaw 90%
- gwneud yn siŵr bod pob un o'r athrawon yn cael adolygiad dysgu gyda'r arweinydd cynhwysiant bob tymor sy'n canolbwyntio ar bresenoldeb disgyblion unigol hefyd
- sefydlu olrheiniwr presenoldeb lle caiff camau gweithredu ar gyfer disgyblion unigol eu monitro'n ofalus gan yr arweinydd cynhwysiant

Mae'r ysgol wedi sefydlu cyngor rhieni, sy'n cynnwys dau riant o bob grŵp blwyddyn. Maent yn ffurfio rhwydwaith cymorth ar gyfer rhieni ac maent yn yr ysgol bob dydd. Gall unigolion fynd atynt i ofyn am gymorth neu drafod materion. Un o'u nodau yw gwella presenoldeb.

**Effaith**

Mae'r ffaith fod yr ysgol yn olrhain disgyblion yn fanwl yn dangos bod eu strategaethau wedi helpu i greu effaith fesuradwy ac arwyddocaol ar wella presenoldeb disgyblion a nodwyd. Er enghraifft, mewn un tymor, targedodd yr ysgol 32 o ddisgyblion yr oedd eu presenoldeb islaw 80% (roedd presenoldeb hanner ohonynt yn llai na 75%). O'r rhain, llwyddodd 29 disgybl i wella eu presenoldeb yn sylweddol. Llwyddodd deuddeg disgybl (dros draean ohonynt) i gyflawni cyfradd presenoldeb dros 90% ac roedd cyfradd presenoldeb wyth disgybl (chwarter ohonynt) dros 95%. Llwyddodd pedwar disgybl i gyflawni cyfradd presenoldeb 100% am y tymor. Y gwelliant cyfartalog mewn presenoldeb oedd 17 pwynt canran.

Effaith pob un o strategaethau'r ysgol ar bresenoldeb yr ysgol gyfan oedd bod yr ysgol wedi codi i'r 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau ag 20 ysgol gynradd. Mae'r sampl yn ystyried cefndir economaidd gymdeithasol, lleoliad daearyddol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Yn yr ymweliadau hyn, fe wnaeth AEM:

- gyfarfod â grwpiau cynrychioliadol o ddisgyblion
- cyfarfod â phenaethiaid
- cyfarfod ag aelodau o staff yr ysgol sy'n gyfrifol am bresenoldeb a lles
- adolygu dogfennau'r ysgol, yr awdurdod lleol a'r consortia

Ystyriodd y tîm dystiolaeth ychwanegol o blith y canlynol:

- ystadegau presenoldeb cenedlaethol
- dadansoddiad Llywodraeth Cymru o bresenoldeb
- Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan
- adroddiadau arolygu Estyn o ysgolion cynradd
- adroddiadau thematig Estyn

**Ysgolion yr ymwelwyd â nhw**

Hoffai Estyn ddiolch i'r holl ysgolion a gynorthwyodd â datblygu'r adolygiad thematig hwn. Yn benodol, hoffem ddiolch i'r ysgolion a gymerodd ran yn ein gwaith arolwg manwl, sef:

- Ysgol Gynradd Sirol Abernant, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Gynradd Parc Acton, Wrecsam
- Ysgol Gynradd Sirol Bynea, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Gynradd Christ Church, Sir Ddinbych
- Ysgol Gynradd Ffordun, Powys
- Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Maes-Y-Coed, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Gynradd Sirol Myrddin, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Gynradd Parkland, Abertawe
- Ysgol Gynradd Severn, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Santes Helen, Abertawe
- Ysgol Gynradd Santes Monica yr Eglwys yng Nghymru, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Tredegarville, Caerdydd
- Ysgol Gymraeg Llwyncelyn, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Gymraeg Nant Caerau, Caerdydd
- Ysgol Llannefydd, Conwy
- Ysgol Treganna, Caerdydd
- Ysgol Y Bedol, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Y Graig, Merthyr Tudful
- Ysgol Tan-y-Fron, Wrecsam

## Atodiad 2: Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt

Llwyddodd pob un o'r chwe ysgol gynradd a ddyfynnwyd yn yr arolwg thematig hwn yn ysgolion sy'n gwella eu cyfraddau presenoldeb, i symud o'r 25% isaf neu'r 50% is yn 2011 i'r 50% uwch neu'r 25% uchaf yn 2014 o gymharu ag ysgolion tebyg.

| | **Cyfraddau presenoldeb** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** |
| Ysgol Gynradd Parc Acton, Wrecsam | 95.4% | 95.7% | 95.5% | 95.8% |
| Ysgol Gynradd Parkland, Abertawe | 93.7% | 94.2% | 94.3% | 95.5% |
| Ysgol Gynradd Christchurch, Y Rhyl | 92.8% | 93.8% | 93.6% | 93.6% |
| Ysgol Gynradd Santes Monica yr Eglwys yng Nghymru, Caerdydd | 91.2% | 92.9% | 94.4% | 95.3% |
| Ysgol Gynradd Santes Helen, Abertawe | 90.3% | 91.9% | 94.4% | 95.5% |
| Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Caerdydd | 91.4% | 91.8% | 93.4% | 93.6% |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn, Porth | 93.2% | 94.4% | 95.0% | 95.5% |
| Ysgol Gynradd Tredegarville, Caerdydd | 91.4% | 92.4% | 94.0% | 95.2% |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

## Atodiad 3: Absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig

Absenoldeb anawdurdodedig yw absenoldeb heb gymeradwyaeth gan gynrychiolydd awdurdodedig o’r ysgol ac mae’n cynnwys yr holl absenoldebau heb esboniad. Mae absenoldeb awdurdodedig yn golygu bod yr ysgol naill ai wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw i ddisgybl o oedran ysgol gorfodol gael seibiant o’r ysgol, neu wedi derbyn esboniad a gynigiwyd yn ddiweddarach i gyfiawnhau’r absenoldeb.

Mae’n bwysig bod ysgolion yn ofalus wrth awdurdodi absenoldeb. Os ydynt yn amau’r esboniad a roddwyd gan rieni, dylai’r ysgol ymchwilio ymhellach i’r absenoldeb a dylai aros yn absenoldeb anawdurdodedig nes bod yr ysgol wedi cadarnhau’r mater, er boddhad iddi. Mae’r penderfyniad a wna’r ysgol i awdurdodi absenoldeb ai peidio yn hollbwysig wrth benderfynu lefel ymglymiad y Gwasanaeth Lles Addysg.

Nid oes disgwyl i ddisgyblion fynd i’r ysgol pan nad ydynt yn ddigon da i wneud hynny, p’un ai yw hynny oherwydd salwch tymor byr, tymor hir neu salwch mynych. Fodd bynnag, ni ddylid eu cadw draw o’r ysgol pan maent yn ddigon da i fynd i wersi neu pan fydd ganddynt fân anhwylderau, nad ydynt yn eu hatal rhag mynychu. Mae ystyried p’un a fyddai’r anhwylder yn cadw rhieni ac athrawon adref o’r gwaith yn ganllaw defnyddiol ar gyfer hyn.

Mae’n rhesymol i’r ysgol ofyn beth yw natur y salwch, gofyn i’r rhiant beth yw hyd disgwyliedig yr absenoldeb a gwneud trefniadau i’r rhiant ffonio’r ysgol eto os bydd y sefyllfa’n newid.

Mae gan ysgolion yr hawl i ystyried p’un a ddylid derbyn sefyllfa’r rhiant/gofalwr o ran absenoldeb meddygol gan fod yna adegau pan fydd rhieni’n rhoi gwybod i’r ysgol am absenoldeb meddygol pan mae, mewn gwirionedd, yn absenoldeb wedi’i ganiatáu gan rieni. Os oes gan yr ysgol bryderon nad yw’r salwch efallai naill ai’n ddilys neu’n cyfiawnhau nifer yr absenoldebau sy’n cronni, gallai’r ysgol ofyn i’r rhiant brofi’r salwch trwy ofyn am gael gweld tystiolaeth ychwanegol fel cerdyn apwyntiad. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ofyn am lythyrau gan feddygon teulu, oherwydd y baich gweinyddol ychwanegol y gallai hyn ei achosi iddynt.

## Atodiad 4: Y sefyllfa gyfreithiol bresennol mewn perthynas â phresenoldeb

O dan adran 7 Deddf Addysg 1996, mae'r rhiant neu'r gofalwr yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas ar gyfer oedran, gallu a thueddfryd eu plentyn, ac ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod gan y plentyn.

Mae cael disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon yn ofyniad cyfreithiol ac mae'n hanfodol i ddisgyblion wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Yn gyfreithiol, mae trosedd yn digwydd os na fydd rhiant/gofalwr yn sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol ac nad yw'r absenoldeb hwnnw wedi cael ei awdurdodi gan yr ysgol.

O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, mae'n ofynnol i ysgolion gymryd cofrestr presenoldeb ddwywaith y dydd; ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Mae cywirdeb y gofrestr yn bwysig er mwyn cefnogi unrhyw ymyriadau statudol a allai fod yn ofynnol.

O dan adran 437 Deddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd hefyd i sicrhau bod plentyn y maent yn gyfrifol amdano yn cael addysg addas naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd, neu fel arall.

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010. Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995, gyda diwygiadau.

Fel mater o drefn, nid oes gan rieni hawl i dynnu disgyblion o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor. Mewn perthynas â chaniatáu i ddisgybl fod yn absennol o'r ysgol, mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn glir mai'r pennaeth sydd â'r cyfrifoldeb. Maent yn datgan:

- Ar gais sy'n cael ei wneud gan riant y mae'r disgybl yn byw ag ef/â hi fel arfer, gallai'r ysgol ganiatáu i'r disgybl fod yn absennol i alluogi'r disgybl i fynd i ffwrdd ar wyliau
- Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni ddylid caniatáu mwy na deg diwrnod ysgol o wyliau i ddisgybl mewn unrhyw flwyddyn ysgol

**Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru)**

Daeth y rheoliadau hyn i rym ar 2 Medi 2013. Maent yn cydnabod bod mynychu'r ysgol yn hanfodol i wella rhagolygon addysgol plant ac mai hysbysiadau cosb yw'r unig ddewis ymhlith nifer o ymyriadau gwahanol sydd ar gael i hyrwyddo presenoldeb gwell yn yr ysgol.

O ganlyniad i'r rheoliadau hyn, mae gan benaethiaid yr awdurdod i gyhoeddi hysbysiadau cosb o ran presenoldeb afreolaidd plentyn sydd wedi'i gofrestru yn eu hysgol. Gallent awdurdodi eu dirprwy a'u pennaeth cynorthwyol i wneud yn yr un fath. Mae gan yr awdurdod lleol a'r heddlu'r awdurdod i gyhoeddi hysbysiadau cosb o dan y ddeddfwriaeth hon hefyd.

Y gosb yw £60 os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad, sy'n codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod, ond o fewn 42 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad. Mae 'Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd. Dogfen y canllawiau, rhif: 116/2013' yn rhoi rhagor o arweiniad.

Mae arweiniad ar y ddeddfwriaeth hon yn nodi bod hysbysiadau cosb yn ddewis ychwanegol y gellir ei ddefnyddio mewn ystod eang o strategaethau ymyrraeth a chymorth i gynorthwyo rhieni, gofalwyr a disgyblion. Mae mesurau'r hysbysiad cosb wedi eu cynllunio i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau trwy sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Yn yr arweiniad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y canlynol hefyd:


- Pan fydd plentyn yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd, mae'n cymryd cam pwysig tuag at gyflawni ei lawn botensial, ac mae'n cael y cyfle gorau i ddysgu pethau newydd a datblygu ei fedrau
- Bod plant sy'n colli'r ysgol yn gallu bod ar ei hôl hi â'u gwaith yn aml, ac nid ydynt yn gwneud cystal mewn arholiadau
- Po fwyaf o amser y mae plentyn yn ei dreulio o amgylch plant eraill, p'un a yw hynny yn yr ystafell ddosbarth neu fel rhan o dîm neu glwb ysgol, y mwyaf o gyfle a gaiff i wneud ffrindiau a theimlo ei fod yn cael ei gynnwys, gan hybu medrau cymdeithasol, hyder a hunan-barch
- Mae angen parhau i roi blaenoriaeth i bresenoldeb mewn ysgolion i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyflawni eu potensial

# Atodiad 5: Cyfraddau presenoldeb awdurdodau lleol a chonsortia

## Absenoliaeth gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn yr holl ysgolion cynradd a gynhelir ac ysgolion arbennig, yn ôl awdurdod lleol a chonsortiwm rhanbarthol

| | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd o ganlyniad i: | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Absenoldeb cyffredinol | | | | Absenoldeb anawdurdodedig | | | |
| Awdurdod lleol | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
| **Gogledd Cymru** | **5.9** | **5.5** | **5.8** | **5.2** | **0.7** | **0.6** | **0.6** | **0.5** |
| Ynys Môn | 6.5 | 5.7 | 5.6 | 5.4 | 0.7 | 0.6 | 0.6 | 0.5 |
| Gwynedd | 5.9 | 5.4 | 5.7 | 4.9 | 0.5 | 0.4 | 0.4 | 0.3 |
| Conwy | 5.8 | 5.5 | 5.9 | 5.3 | 0.8 | 0.7 | 0.8 | 0.6 |
| Sir Ddinbych | 5.7 | 5.5 | 5.7 | 5.2 | 0.7 | 0.6 | 0.6 | 0.5 |
| Sir y Fflint | 6.1 | 5.5 | 5.9 | 5.2 | 0.6 | 0.4 | 0.5 | 0.4 |
| Wrecsam | 5.7 | 5.4 | 5.9 | 5.2 | 0.8 | 0.7 | 0.7 | 0.6 |
| **De Orllewin a Chanolbarth Cymru** | **6.9** | **6.3** | **6.6** | **5.1** | **0.5** | **0.4** | **0.4** | **1.1** |
| Powys | 6.4 | 5.4 | 5.8 | 4.4 | 0.3 | 0.2 | 0.2 | 0.8 |
| Ceredigion | 5.7 | 5.1 | 5.7 | 4.4 | 0.6 | 0.5 | 0.6 | 0.9 |
| Sir Benfro | 6.8 | 6.1 | 6.5 | 5.2 | 0.4 | 0.4 | 0.3 | 1.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 6.9 | 6.3 | 6.5 | 5.0 | 0.5 | 0.4 | 0.4 | 0.8 |
| Abertawe | 7.1 | 6.7 | 7.0 | 5.6 | 0.6 | 0.5 | 0.6 | 1.4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 7.5 | 7.0 | 7.0 | 5.4 | 0.4 | 0.3 | 0.3 | 1.2 |
| **Canol De Cymru** | **7.1** | **6.4** | **6.3** | **5.3** | **1.4** | **1.1** | **1.3** | **1.2** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6.8 | 6.3 | 6.5 | 5.2 | 0.9 | 0.9 | 0.8 | 0.8 |
| Bro Morgannwg | 6.3 | 5.5 | 5.8 | 4.7 | 1.7 | 1.1 | 1.0 | 0.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 7.7 | 6.9 | 6.6 | 5.5 | 1.4 | 1.0 | 0.9 | 0.9 |
| Merthyr Tudful | 7.6 | 7.1 | 6.7 | 6.1 | 0.6 | 0.2 | 0.2 | 0.6 |
| Caerdydd | 7.1 | 6.4 | 6.0 | 5.1 | 1.7 | 1.4 | 2.0 | 1.8 |
| **De Ddwyrain Cymru** | **6.9** | **6.4** | **6.7** | **5.4** | **1.0** | **1.0** | **1.1** | **1.1** |
| Caerffili | 7.2 | 6.9 | 6.8 | 5.6 | 1.3 | 1.1 | 1.0 | 0.8 |
| Blaenau Gwent | 7.5 | 6.9 | 6.9 | 5.6 | 0.5 | 0.4 | 0.5 | 1.3 |
| Torfaen | 6.8 | 6.0 | 6.4 | 5.3 | 0.7 | 0.9 | 1.3 | 1.1 |
| Sir Fynwy | 5.6 | 5.3 | 5.6 | 4.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.6 |
| Casnewydd | 7.0 | 6.6 | 7.0 | 5.8 | 1.6 | 1.5 | 1.8 | 1.7 |
| **Cymru (a) (b)** | **6.7** | **6.2** | **6.3** | **5.2** | **0.9** | **0.7** | **0.9** | **1.0** |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru, 2014.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2014

## Rhestr gyfeiriadau


Estyn (2006) *Gwella Presenoldeb.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/172809/Gwella%20presenoldeb%20-%202006/?navmap=30,163, [Defnyddiwyd 21 Mai 2015].

Great Britain (1996) *Education Act 1996.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/contents [Defnyddiwyd 21 Mai 2015].

Great Britain, Department for Education (2014) *Pupil absence in schools in England: 2012-2013.* London: Department for Education. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/295132/SFR09_2014_Text.pdf [Defnyddiwyd 21 Mai 2015]. (Saesneg yn unig)

Northern Ireland, Department of Education (2014) *Attendance at grant-aided primary, post-primary and special schools 2012/13: Detailed statistics.* Bangor: Department of Education. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.deni.gov.uk/attendance_at_grant-aided_primary__post-primary_and_special_schools_2012_13__detailed_statistics_final.pdf [Defnyddiwyd 21 Mai 2015]. (Saesneg yn unig)

*Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru)* (2013) SI 2013/1983 (W.193). [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/1983/contents/made [Defnyddiwyd 21 Mai 2015].

*Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion)* (1995) SI 1995/ 2089. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1995/2089/contents/made [Defnyddiwyd 21 Mai 2015].

*Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru)* (2010) SI 2010/1954 (W.187). [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2010/1954/contents/made [Defnyddiwyd 21 Mai 2015].

The Scottish Government (2013) *Attendance and Absence 2012/13: Supplementary data.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.gov.scot/Topics/Statistics/Browse/School-Education/AttendanceAbsenceDatasets [Defnyddiwyd 21 Mai 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2011) *Strategaethau i ysgolion wella presenoldeb a rheoli diffyg prydlondeb.* Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/110308section3cy.pdf [Defnyddiwyd 21 Mai 2015].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2013) *Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd.* Llywodraeth Cymru. (Dogfen: 116/2013) [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-cy.pdf [Defnyddiwyd 21 Mai 2015].

Llywodraeth Cymru (2014) *Absenoldeb o Ysgolion Cynradd, 2013/14.* Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2014/141203-absenteeism-primary-schools-2013-14-en.pdf [Defnyddiwyd 21 Mai 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2015) *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion, 2014.* Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150331-academic-achievement-pupil-characteristics-2014.pdf [Defnyddiwyd 21 Mai 2015]. (Saesneg yn unig)

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Andrew Thorne | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Tony Bate | Tîm yr arolwg |
| Andy Liptrott | Tîm yr arolwg |